

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson a S. Sivagnanam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) a N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau).

### 1039 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 1040 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Crowley a J.W. Thomas.

### 1041 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

### 1042 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 1043 CAMAU ANNERBYNIOL GAN DDINASYDDION A PHOLISIŶAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 11 Ebrill, i ddechrau gan y Rheolwr Gweithredol Cysylltiadau Cwsmeriaid, a roddodd amlinelliad i'r Pwyllgor o'r canlynol:

- Roedd y Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion yn cydnabod bod cyfleoedd i ryngweithio â'r Cyngor a'i swyddogion wedi lluosogi yn sgil poblogrwydd cynyddol llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cyfathrebu'n gyflym ac yn rhwydd, ac yn cynnig cyfle i gynyddu tryloywder ac i wella gwasanaethau. Fodd bynnag, yn achos lleiafswm bach o ryngweithiadau, gallai fod yn ymwithiol ac yn anodd ei reoli ar broffiliau proffesiynol a phreifat. Gallai hyn felly amharu ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau, a gallai gael effaith andwyol ar ddinasyddion eraill gan nad oedd y Cyngor yn gallu darparu'r gwasanaethau hynny'n effeithiol. Mewn achosion eithafol, gallai hefyd effeithio ar lesiant staff a Chynghorwyr.
- Daeth y Polisi newydd hwn i ddisodli'r Polisi Achwynwyr Afresymol yr oedd y Cyngor wedi'i weithredu ers blynnyddoedd. Roedd y polisi hwnnw wedi bod yn effeithiol o ran rheoli'r effaith ar staff a gwasanaethau pan fyddai achwynwyr yn dechrau cysylltu'n ddi-baid, yn troi'n ymosodol neu'n gwneud ceisiadau afresymol. Nodwyd hefyd nad oedd yr hen bolisi ond wedi cael ei gymhwyso i nifer fach iawn (llai na 5) o unigolion, pan fyddai mynychder eu cysylltiadau, neu natur y cysylltiadau, wedi amharu ar y gallu i ymdrin â chwynion eraill, neu wedi cael effaith annerbyniol ar amser Swyddog neu Gynghorydd. Roedd cwrpas y Polisi newydd wedi cael ei ehangu i gynnwys pob math o ryngweithio yn hytrach na chwynion yn unig. Fodd bynnag, fel yr hen Bolisi, rhagwelwyd mai pur anaml y byddai'n cael ei gymhwyso o hyn allan.
- Roedd y Polisi newydd yn disgrifio sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau dull teg a chyson o gymhwyso'r Polisi, yn ogystal â rhoi diffiniad clir o weithredoedd ac ymddygiad 'annerbyniol', hy, ymddygiad ymosodol neu gamdriniol, ceisiadau afresymol ac/neu lle bo'r dinesydd yn cysylltu'n ddi-baid.
- Byddai unrhyw gais i gymhwyso'r Polisi yn cael ei ystyried gan banel annibynnol o isafswm o dri Phrif Swyddog wedi'u penodi gan y Prif Weithredwr er mwyn sicrhau bod adolygiad gwrthrychol o'r cais hwnnw. Byddai'r dinasyddion hynny y gellid cymhwyso'r Polisi iddynt hefyd yn cael cyfle i ddarparu gwybodaeth i'r panel cyn dod i benderfyniad terfynol. Roedd gan y panel amrywiaeth o opsiynau gwahanol y gellid eu hystyried yn dibynnu ar y sefyllfa unigol a'r hyn a oedd yn fwyaf priodol, ac roedd nodyn gweithdrefn hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer cydweithwyr a esboniai'n glir sut a phryd y dylid gweithredu'r Polisi er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymagwedd.
- Yn fyr, roedd y Polisi'n cynnig proses deg, gyson a chadarn i amddiffyn gwasanaethau, cydweithwyr a dinasyddion hefyd rhag yr effeithiau andwyol a oedd yn deillio, ar adegau prin iawn, o ymddygiad annerbyniol nifer fach iawn o ddinasyddion.

Aeth y Rheolwr Cyfathrebu ymlaen i esbonio'r prif bwyntiau o'r polisi cysylltiedig ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol:

- Roedd Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol yn esbonio sut roedd y Cyngor yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am wasanaethau a digwyddiadau, a hefyd i hyrwyddo gwaith y Cyngor, a sut roedd yn ymgysylltu â phobl ar-lein.
- Byddai'r Polisi'n ffurfioli'r ffordd yr oedd y Cyngor wedi bod yn gweithio yn y meysydd hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a thrwy hynny'n sicrhau tryloywder o ran y dull hwn, ac yn esbonio wrth y trigolion yn union sut roedd y Cyngor yn gweithredu cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol.

- Ar ôl cytuno ar y Polisi, byddai dolen gyswllt yn cael ei chynnwys yn adran bywgraffiad bob un o gyfrifon corfforaethol y Cyngor.
- Byddai'r Polisi yn nodi'r hyn y gallai dinasyddion ei ddisgwyl gan y Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhyngweithiadau ar-lein, hy bod yn ddefnyddiol ac yn dryloyw wrth ymgysylltu â chwsmeriaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol a cheisio rhoi ateb clir, cryno i ymholiadau lle bo modd, ac yna beth fyddai'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan ddinasyddion hefyd yn rhan o'r mathau hynny o ymgysylltiad.
- Tîm Cyfathrebu'r Cyngor oedd yn cynnal cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol, ac roedd y Polisi'n esbonio'r sefyllfaoedd lle gallent ymateb i bethau ar unwaith o fewn y tîm, a lle byddai angen iddynt fynd i ofyn i adrannau eraill ymateb, er mwyn cael yr wybodaeth honno a'i chyfleu'n ôl wrth y trigolion.
- Fel y Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion, roedd Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol yn cydnabod bod nifer fach iawn o ddinasyddion a oedd yn gweithredu mewn modd annerbyniol yn nhyb y Cyngor. Yr ymagwedd a ddisgrifiwyd yn y Polisi oedd rheoli'r gweithredoedd hyn yn seiliedig ar eu natur a'u maint, a'r camau y gellid eu cymryd.
- Byddai'r Polisi yn helpu i greu fforwm cyhoeddus ar-lein y gellid ei reoli er mwyn iddo fod yn 'lle diogel' i bobl ymgysylltu â'r Cyngor. Byddai'r Cyngor felly'n cael gwared ag unrhyw atebion neu sylwadau a oedd yn ymosodol neu'n gamarweiniol ac yn hyrwyddo gwasanaethau trydydd parti, neu'n ceisio cyhoeddi manylion personol unrhyw aelod o staff y Cyngor, ac ati.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cynghorydd John y byddai'r naill bolisi a'r llall yn hynod fuddiol, ac na fyddent yn atal y cyhoedd rhag gallu gofyn cwestiynau i'r Cyngor ac ati. Fodd bynnag, byddai'r Polisiâu o gymorth i fynd i'r afael â'r adegau hynny pan fyddai nifer fach iawn o drigolion yn ymosodol ac yn eithriadol o amharchus tuag at Aelodau etholedig a staff y Cyngor, heb dderbyn ateb neu benderfyniad a fyddai'n cael ei roi gan yr Aelodau etholedig neu'r aelodau hynny o staff.
- Er bod y Cynghorydd Carroll yn adleisio'r pwyntiau a godwyd ynghylch yr angen i ddangos cwrtseisi neu barch tuag at y bobl hynny mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd a'r heriau'n gysylltiedig â chwynion blinderus, rhybuddiodd hefyd rhag y posibilrwydd o 'ymdreiglâd cenhadaeth', hy, y risg o ddefnyddio'r rhain i beidio ymgysylltu ac i roi cwynion neu ymholiadau anodd a pharhaus, ond dilys, gan drigolion, o'r neilltu. Er mwyn atal hyn, roedd angen monitro'r polisiâu hyn yn ofalus iawn a'u cymhwyso mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig, ar ôl mynd ar drywydd yr holl opsiynau eraill. Gofynnodd a oedd mesurau diogelu ar waith ar gyfer amgylchiadau o'r fath, ac atebodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cysylltiadau Cwsmeriaid na fyddai'r Cyngor ond yn ystyried cymhwyso'r Polisi Gweithredu Annerbyniol gan Ddinasyddion yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol, a dim ond ar ôl cyflwyno'r cais i'r Prif Weithredwr a fyddai'n penodi panel annibynnol i ystyried y rhesymau dros gynnig cymhwyso'r Polisi. Hefyd, byddai unrhyw benderfyniad i gymhwyso'r Polisi yn cael ei gofnodi'n ganolog, fel y gellid gweld a oedd cynnydd ai peidio yn y nifer o weithiau yr oedd y Polisi'n cael ei gymhwyso.

- Argymhellodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno adroddiad monitro neu ddiweddiariad blynyddol ar y Polisiâu ac unrhyw gamau neu gwynion cysylltiedig i'r Pwyllgor a'r Cabinet; awgrymodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes y gellid cyfuno hyn â'r adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth yr oedd, yn ôl deddfwriaeth ddiweddar, yn ofynnol ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Byddai'r adroddiad hwnnw'n rhoi darlun cyfannol o gwynion, canmoliaeth a gweithredu annerbyniol mewn un man, ac yn galluogi'r ddau Bwyllgor i graffu arnynt.

Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

#### ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD Camau Annerbyniol gan Bolisi Dinasyddion a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael diweddiariad blynyddol ar Gamau Annerbyniol gan Polisiâu Dinasyddion a'r Cyfryngau Cymdeithasol, fel rhan o'r adroddiad cwynion a chanmoliaeth blynyddol.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Bod y Pwyllgor Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiâu hyn ac ar unrhyw gamau gweithredu / cwynion cysylltiedig.

#### 1044 STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 11 Ebrill, 2022 gan y Rheolwr Cyfathrebu er mwyn i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gwneud unrhyw sylwadau cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo'n derfynol.

Fersiwn wedi'i diweddarau o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd oedd y mater dan sylw, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chyhoeddi drafft Canllawiau Llywodraeth Cymru. Y

bwriad oedd cyhoeddi'r Strategaeth, a gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol eleni, yn unol â'r gofyniad statudol.

Tynnodd y Rheolwr Cyfathrebu sylw at y prif bwyntiau a'r diwygiadau i'r Strategaeth, yn dilyn yr ymgynghoriad, ee,

- Mwy o bwyslais ar bwysigrwydd cyfathrebu sut a phryd y gallai pobl ddylanwadu ar benderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor.

- Cadarnhad clir y byddai llwybrau nad ydynt yn ddigidol ar gael bob amser i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Cydnabyddiaeth glir fod angen ymgyrch hyrwyddo eang i hyrwyddo'r amrywiol fecanweithiau sy'n bodoli eisoes o fewn y Cyngor.
- Cam gweithredu ychwanegol i gyfuno holl weithgareddau ymgynghori, ymgysylltu a chyfranogi'r Cyngor mewn un hyb ar-lein y gellir cael mynediad rhwydd iddo, a chyfeiriad at yr amcan hirdymor o ddatblygu porthol a oedd yn cyfuno'r holl lwybrau ar gyfer cyfranogi ym Mro Morgannwg, ee cysylltu â'r Trydydd sector.
- Cydnabyddiaeth ychwanegol yn y drafft a oedd wedi'i ddiweddarau nad oedd holl weithgareddau cyfranogi'r Cyngor ar hyn o bryd yn gwbl hygyrch i bob grŵp â nodweddion gwarchoddedig, a bod y Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â hynny.
- Yr angen i ddatblygu canllawiau gwell i swyddogion y Cyngor ynghylch sut i lunio dogfennau sy'n hygyrch i rai â nodweddion gwarchoddedig, ac ar raddfa ehangach, a fyddai'n haws i ddinasyddion a rhanddeiliaid eu deall.
- Yr angen i ddatblygu templed o gynllun cyfathrebu ar gyfer adroddiadau a oedd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau'r Cabinet a Chraffu i'w gwneud hi'n haws i'r Cyngor gyflwyno gwybodaeth allweddol a oedd yn mynd drwy'r broses benderfynu a'r strwythurau ffurfiol gerbron trigolion.
- Cam gweithredu ychwanegol i ddatblygu dulliau gwell o friffio ac ymgysylltu â Chynghorwyr ar ddechrau eu gweithgareddau cyfranogi, er mwyn helpu i gefnogi Cynghorwyr i weithio fel eiriolwyr gwell ar ran trigolion a'r Cyngor ei hun.
- Er mwyn gwireddu potensial yr hyn a nodwyd yn y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, cydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor weithio'n effeithiol gydag ystod ehangach o grwpiau cymunedol, yn ogystal â mapio'r grwpiau hynny a'u cysylltiadau a'u rhwydweithiau cymunedol er mwyn datblygu cynllun ar ôl hynny i'w cefnogi.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft o'i chanllawiau ar lunio strategaethau cyfranogiad cyhoeddus ar gyfer ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid oedd disgwyl i'r canllawiau gael eu cwblhau'n derfynol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac roedd hynny'n golygu y byddai angen i'r Cyngor edrych ar fersiwn derfynol y canllawiau bryd hynny a gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'w strategaeth. Pe bai angen diwygiadau pellach, byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno eto gerbron y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Byddai'r Cyngor hefyd yn cyflwyno ymateb ar wahân i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, ac roedd Tîm Polisi'r Cyngor ar ganol llunio'r ymateb hwnnw.

Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

ARGYMHELLWYD – BOD y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn cael ei chymeradwyo.

### Rheswm dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## 1045 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: CANLLAWIAU STATUDOL SAFONAU YMDDYGIAD (PW) –

Pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau ynghylch y dyletswyddau a osodwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad
- Cydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor
- Rhoi cyngor a hyfforddiant
- Llunio Adroddiad Blynyddol

Roedd darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adran 62) yn gosod dyletswydd newydd ar Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith eu haelodau.

Roedd y ddyletswydd yn cydnabod y dylai rhai mewn rolau arweinyddol a dylanwadol o fewn Prif Gyngor fod yn gyfrifol am drechu bwlio ac aflonyddwch ymhlith Aelodau etholedig a staff y Cyngor, a bod yn rhaid iddynt weithredu fel esiampl gadarnhaol.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 21 Chwefror, 2022 a byddai'n dod i ben ar 16 Mai, 2022.

Roedd paragraff 2.2 yn manylu ar y cwestiynau o fewn yr ymgynghoriad, a'r ymatebion a awgrymwyd i'r cwestiynau gan y Swyddog Monitro.

Ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

### ARGYMHELLWYD –

(1) BOD yr ymateb a awgrymwyd i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Safonau Ymddygiad yn cael ei nodi.

(2) BOD yr ymateb a awgrymwyd i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Safonau Ymddygiad yn cael ei anfon i'r Cabinet i'w hystyried ac wedi hynny i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori cyn 16 Mai, 2022.

### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hysbysu'r Cabinet ac ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru erbyn 16 Mai 2022.

1046 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL  
MORGANNWG 2020/21 -

Estynnodd y Pwyllgor groeso i Rachel Connor, cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM), a amlinellodd y canlynol i'r Aelod ynghylch gwaith a chyflawniadau GGM, mewn partneriaeth â'r Cyngor, dros 2020/21.

- Ers mis Mawrth 2020, roedd pandemig COVID-19 wedi gorfodi GGM a'i bartneriaid, gan gynnwys y Cyngor, i ymaddasu'n gyflym i newidiadau digynsail.
- Yn rhan o'r uchod, bu GGM yn ystyried sut y gallai ymateb i rai o anghenion a gofynion y gymuned leol, a bu'n helpu i sefydlu a chyfrannu at wefan Arwyr y Fro, Darparwyd y gwasanaethau i unigolion yr oedd angen codi eu siopa a phresgripsiynau meddygol, ac ati, gyda'r Cyngor yn gwneud y gwaith trefnu.
- Cafodd dinasyddion hyd i unigolion a gwirfoddolwyr lleol i'w helpu, beth bynnag oedd eu hanghenion, gyda'r rhai dros 65 oed yn derbyn cymorth drwy Age Connect, a'r rhai dan 65 oed drwy GGM, a bu'r trefniadau'n llwyddiant.
- Darparodd GGM gyfeiriaduron gwybodaeth yn esbonio pa wasanaethau a oedd yn dal ar gael o fewn y gymuned, yr Awdurdod Lleol a'r sector gwirfoddol drwy gydol y pandemig. Byddai'r rhain yn cael eu diweddarau'n ddyddiol a'u huwchlwytho i'r wefan a oedd yn cael ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol. O ran gwasanaethau, fel y rhai a ddarperir ar y cyd gan bartneriaid yn yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y grwpiau cymunedol hynny a gynhaliai neuaddau a chanolfannau cymuned yn derbyn cefnogaeth, cyngor a'r wybodaeth gywir er mwyn gallu sicrhau, pe baent yn agor, y byddent yn cadw at reoliadau Llywodraeth Cymru drwy gydol cyfnod Covid-19. Bu'r gwaith hwnnw'n eithriadol o lwyddiannus ar gyfer mwyafrif y grwpiau.
- Llwyddodd GGM i gydgyssylltu a denu amrywiaeth o gynlluniau grant i'r Fro, gan gynnwys cynlluniau gan Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Comic Relief, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd, gan greu cyfanswm o £291,000. Roedd hyn yn golygu bod modd sicrhau bod sefydliadau lleol ar lawr gwlad a oedd yn rhoi cymorth hanfodol i unigolion yn derbyn cyllid yn gyflym ac effeithlon.
- Cafwyd cynnydd sydyn yn nifer y gwirfoddolwyr dros y cyfnod, gyda thros 1,000 o bobl yn gwirfoddoli dros gyfnod cychwynol y Pandemig, a gafodd wedyn eu lleoli mewn grwpiau lleol amrywiol i ddarparu gwasanaethau. Er na chyrhaeddwyd yr un nifer o wirfoddolwyr yn ddiweddarach, roedd nifer y gwirfoddolwyr yn dal i fod yn uchel, gyda'r Pandemig yn gweithredu fel catalydd i ddod â chymunedau ynghyd â rhoi hwb i wirfoddoli.
- Parhaodd GGM i gyflawni gwaith yn gysylltiedig â materion llywodraethu, hy, helpu grwpiau lleol a oedd yn eu sefydlu eu hunain i weithredu o bell (hy, drwy ddefnyddio Zoom, Teams a Facebook) drwy greu 'llawlyfr' a gyfunai'r holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol iddynt allu gweithredu yn ystod y Pandemig, ac i ddiogelu eu gwirfoddolwyr a'u cleientiaid wrth ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau.
- Parhaodd GGM hefyd i gynnal gwasanaethau ymarferol i'r Trydydd Sector, fel llogi cyfarpar arddangos a mathau eraill o gyfarpar, ac argraffu pamffledi, er i COVID-19 amharu ar ei allu i wneud hynny.

- Parhaodd GGM hefyd i sicrhau bod grwpiau gwirfoddolwyr ac ati yn gallu cyrchu a rhannu gwybodaeth allweddol, a chynyddu swmp yr wybodaeth honno yn ystod y Pandemig drwy'r bwletinâu newyddion wythnosol ar-lein, bwletinâu ychwanegol am COVID-19, a thrwy ei gylchlythyr 'Vista' er mwyn i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a oedd yn digwydd yn ystod y Pandemig.
- Parhaodd GGM hefyd i gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth, ymgynghori a chydweithio yn nhermau cyrff y Trydydd Sector a chyrff statudol, yn ogystal â darparu gwasanaethau hyfforddi i grwpiau gwirfoddol a grwpiau eraill, wedi'u haddasu i'w cynnal ar-lein (drwy Teams, Zoom ac ati) ac roedd hynny yn rhywbeth a groesawyd.
- Roedd GGM wedi cymryd drosodd ac ailwampio hen Ganolfan Ieuenctid Llanilltud Fawr, a oedd bellach yn cael ei galw'n 'CF61'. Byddai'r ganolfan yn cynnig gofod cymunedol i'r cymunedau lleol. Er enghraifft, yn ystod COVID-19, roedd GGM wedi gallu darparu PPE drwy'r lleoliad hwn ac fe'i defnyddiwyd fel canolfan frechu gan feddygfeydd Llanilltud Fawr a'r Bont-faen.
- Roedd GGM hefyd wedi cael adeilad arall, sef Tŷ Illtud, yr oedd Age Connect bellach yn gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau ohono, yn ogystal ag ailagor y feithrinfa a oedd gynt yn y lleoliad hwn. Roedd y gofod swyddfa yn cael ei osod i sefydliadau a busnesau unigol ynghyd â gofod cydweithio fel y gallai pobl leol archebu desgiau i'w defnyddio fesul awr, diwrnod neu wythnos. Roedd yr adeilad hefyd yn cynnwys ystafell gymunedol y gallai gwahanol grwpiau ei harchebu, fel y Grŵp Cymorth i Bobl Anabl, grŵp gofalwyr maeth a Gweithredu dros Blant.
- Yn olaf, roedd GGM wedi cymryd drosodd y gwaith o redeg y Ganolfan Gymuned newydd yn hen Eglwys Sant Paul ym Mhenarth. Byddai'r Ganolfan honno ar agor ac yn gwbl weithredol yn syth ar ôl y Pasg, a bydda'n cael ei rhedeg mewn modd tebyg i CF61, gyda grwpiau ac unigolion lleol yn ei defnyddio i gynnal gweithgareddau. Roedd GGM hefyd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o'r posibilrwydd o ddatblygu llawr gwaelod Hen Westy'r Castell yn y Barri, i'w droi'n gyfleuster cymunedol.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Roedd y Cynghorydd John yn dymuno canmol y gwaith a wnaed gan GGM a'r grwpiau gwirfoddol wrth drawsnewid CF61 a'r adeiladau eraill y cyfeiriwyd atynt yn gyfleusterau cymunedol. Roedd y rhain yn ddatblygiadau eithriadol o gadarnhaol i'w cymunedau, ac yn cynrychioli arian a oedd wedi'i wario'n dda.
- Adleisiodd y Cynghorydd Sivagnanam bwyntiau'r Cynghorydd John, a holodd am ddatblygiad cymunedol Sant Paul a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio, hy, a fyddai grwpiau a gweithgareddau cymunedol wedi'u lleoli yno'n lled-barhaol, neu a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar sail mwy ad hoc, dros dro. Eglurwyd y byddai Sant Paul yn cael ei rhedeg fel canolfan gymuned, a bod y gymuned leol eisoes wedi ymwneud â'r gwaith hwn. Roedd y lleoliad eisoes wedi cael ei archebu ar gyfer dosbarthiadau ioga, gweithgareddau plant ac ati. Uchelgais arall i'r ganolfan oedd cynnal cynllun 'Fare Share' neu 'Food Share' a fyddai'n golygu casglu eitemau a oedd yn agos i'w dyddiad gwerthu, ac eitemau wedi'u cyfrannu gan archfarchnadoedd. Roedd GGM yn croesawu



mewnbwn y gymuned leol a Chynghorwyr ynghylch pa wasanaethau yr hoffent eu gweld yn cael eu darparu.

- Holodd y Cynghorydd Dr Johnson ynghylch dyfodol prif swyddfa GGM yn Gibbonsdown, y Barri, ac am y ganolfan gymuned arfaethedig yng Ngwesty'r Castell. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd hefyd at hyn, a deimlai fod taer angen am y math hwn o ganolfan gymuned yn lleol. O ran Swyddfa Gibbonsdown, er bod y brif swyddfa wedi'i throsglwyddo i CF61 yn Llanilltud Fawr, byddai'r gofod yn y Ganolfan Fenter yn Gibbonsdown yn cael ei gadw. Roedd datblygiad Gwesty'r Castell yn dal i fod yn destun astudiaeth ddichonoldeb, ac roeddent hefyd yn chwilio am bartner i gynnal rhan o'r adeilad fel cafffi.
- Er gwaethaf y gwaith a'r heriau ychwanegol a wynebodd GGM yn sgil COVID-19, dywedodd y Cynghorydd Cox mai prif ffocws GGM o hyd oedd darparu hyfforddiant i sefydliadau lleol, a bod 100% o'r mynychwyr o'r farn fod yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n ardderchog.
- Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau wrth gynnal y gwahanol ganolfannau cymuned hyn, o ran helpu a hyrwyddo canolfannau cymuned eraill hefyd, ac a oedd GGM hefyd yn cadw'r arian a oedd yn cael ei gynhyrchu yn y canolfannau cymuned lleol hyn yn lleol, neu a oedd yn cael ei rannu ar raddfa ehangach. Eglurwyd bod symiau sylweddol o arian, o wahanol ffrydiau ariannu, yn cael eu buddsoddi mewn adeiladau canolfan gymuned. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ar y defnydd o'r canolfannau cymuned, roedd GGM yn defnyddio cronfeydd wrth gefn hefyd er mwyn helpu i'w cynnal. Fodd bynnag, roedd GGM yn dal yn gallu rhannu cyngor i grwpiau gwirfoddol lleol ynghylch cynnal gweithgareddau cymunedol mewn adeiladau dynodedig yn ystod y Pandemig, a galluogi darparu cyfarpar PPE i weithwyr / wirfoddolwyr y Trydydd Sector i'w hamddiffyn wrth fynd i mewn i dai pobl a chynnal gwasanaethau 'rheng flaen'. Dangosai'r adroddiad fod GGM wedi gallu darparu cymorth ac ati i grwpiau lleol amrywiol a bod ganddo dîm hyblyg a oedd wedi gweithio bob awr o'r dydd i gefnogi eu cymunedau lleol. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i Swyddogion y Cyngor rannu copi electronig o gylchlythyr GGM ('Vista') â'r holl Gynghorwyr wedi iddo ddod i law gan GGM.

Wedi i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad hwn yn flynyddol.

(2) BOD Swyddogion y Cyngor yn sicrhau bod cylchgrawn vista GVS ac atodiadau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod etholedig drwy e-bost.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn i'r Pwyllgor gael diweddariadau ar Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg yn flynyddol.

(2) Er mwyn i Aelodau etholedig gael y wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg bob chwarter.